# Canllawiau i broses Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer ymateb cyflym ar unwaith i ddigwyddiadau o hunanladdiad tybiedig

| Fersiwn | Dyddiad adolygu | Perchennog | Dyddiad y cymeradwywyd gan y bwrdd gweithredol | Dyddiad adolygu |
|---|---|---|---|---|
| F1 | | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 21 Ebrill 2025 | 21 Ebrill 2028 |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r trefniadau rhanbarthol ar gyfer darparu ymateb amlasiantaeth cyflym er mwyn rheoli canlyniadau ac effaith achosion lle tybir bod plant ac oedolion ar draws rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyflawni hunanladdiad.

Mae'r protocol hwn yn ategu ac yn cefnogi, ond nid yw'n disodli, protocolau a phrosesau eraill, sef:

- Gweithdrefnau diogelu Cymru
- Ymateb gweithdrefnol i farwolaethau annisgwyl mewn plentyndod (PRUDiC)
- Prosesau cynllunio ar gyfer argyfyngau
- Digwyddiadau tyngedfennol mewn ysgolion

Mae llywodraethu, atebolrwydd a chysylltiadau â fforymau rhanbarthol eraill yn cael eu hesbonio yn adran 6.

**Os oes unrhyw ymholiadau ynghylch pa broses i'w defnyddio, cysylltwch ag Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu drwy CYSUR@pembrokeshire.gov.uk i drafod.**

## 2. RÔL A DIBEN Y MODEL YMATEB CYFLYM AR UNWAITH

Gall hunanladdiad gael effaith bellgyrhaeddol ar deuluoedd, ffrindiau a chymunedau. Nid yw Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eithriad yng Nghymru o ran y cynnydd hysbys mewn hunanladdiadau dros y blynyddoedd diwethaf, ymhlith plant ac oedolion ar draws y rhanbarth. Gall unrhyw farwolaeth annisgwyl greu 'effaith donnog' sy'n para dros gyfnodau hir. Gall marwolaeth annisgwyl effeithio ar unigolion, a grwpiau yn ogystal, ac o ganlyniad gall rhai ohonynt fod yn agored i niwed neu gyflawni hunanladdiad eu hunain. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i aelodau o'r teulu agos ac estynedig, cyfoedion ac aelodau o'r gymuned.

Rôl a diben y model ymateb cyflym yw nodi'n gyflym y bobl hynny sydd fwyaf agored i niwed, ac sydd fwyaf tebygol o weld effaith sylweddol oherwydd y farwolaeth. Mae hyn yn rhoi cyfle i asiantaethau ac ymarferwyr nodi pa gymorth a gwasanaethau y gallai fod eu hangen ar y bobl hynny yr effeithiwyd arnynt, er mwyn atal niwed neu farwolaeth bellach.

***Nid*** yw'r model ymateb cyflym ar unwaith yn fforwm i geisio deall trefn y digwyddiadau, y cyfleoedd a gollwyd, neu'r gwersi y gallwn eu dysgu o'r ymarfer. Mae llawer o fforymau a phrosesau rhanbarthol eraill yn bodoli sy'n cynnig llwyfannau i archwilio'r materion hyn ac mae'n bwysig bod y cyfarfod yn aros o fewn cwmpas ei brif ddiben a'i swyddogaeth. Mae gan gadeirydd y cyfarfod rôl hanfodol, sef sicrhau bod y drafodaeth yn canolbwyntio ar ei phrif ddiben ac yn aros o fewn ei chwmpas.

## 3. MEINI PRAWF AC AMSERLENNI

Dylid nodi mai dim ond crwner a all ddod i gasgliad a gwneud penderfyniad ynglŷn â gweithred o hunanladdiad, ac ni fydd hyn wedi digwydd ar adeg y farwolaeth. Bydd angen i asiantaethau (sef yr heddlu, fel arfer, gan mai nhw sydd fwyaf tebygol o ymateb yn gyntaf) ddefnyddio eu barn wrth

ymgynghori â'r awdurdod lleol ynghylch amgylchiadau'r farwolaeth. Rhaid iddynt benderfynu, ar ôl pwyso a mesur, a ydyw'r amgylchiadau'n awgrymu mai dyna oedd bwriad yr unigolyn, sef cymryd ei fywyd ei hun. Os felly, dylid defnyddio'r broses ymateb cyflym a chynnal cyfarfod pan gytunir bod angen gwneud hynny.

**Os yw'r digwyddiad yn ymwneud â marwolaeth annisgwyl plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed, bydd rhaid cychwyn proses PRUDiC, a'r broses hon fydd yn cael ei blaenoriaethu.** Mae'n bwysig nodi bod y broses PRUDiC yn gyfarfod ar wahân, gyda ffocws a diben gwahanol i'r model ymateb cyflym ar unwaith, ac ni ddylid cyfuno'r ddwy broses wahanol yn un cyfarfod ar y cyd. Mae cymhlethdod y rhwydweithiau cyfoedion a'r rhwydweithiau cymunedol a theuluol cysylltiedig yn aml yn gofyn am ffocws ehangach na'r hyn sy'n ddiben, neu sy'n ymarferol i'w reoli, mewn cyfarfod PRUDiC. Un o'r agweddau ymarferol yw na fyddai'r rheiny sy'n mynd i gyfarfod PRUDiC bob amser yn angenrheidiol i ystyried diogelwch y gymuned; er enghraifft, diogelu mewn clybiau chwaraeon neu leoliadau cymunedol eraill, ac mae'n debygol iawn o beryglu cydymffurfedd ag egwyddorion cyfrinachedd a deddfwriaeth y rheoliad cyffredinol ar ddiogelu data. Fodd bynnag, nid oes dim i atal y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith rhag digwydd yn syth ar ôl cyfarfod PRUDiC, os ystyrir bod hyn yn ymarferol ac yn briodol.

Bydd y penderfyniad i weithredu'r broses yn cael ei wneud yn y mwyafrif o'r achosion gan Heddlu Dyfed-Powys mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol perthnasol. Fodd bynnag, gall unrhyw asiantaeth ofyn am gyfarfod ymateb cyflym ar unwaith, er yr ystyrir y byddai sefyllfaoedd o'r fath yn anarferol ac yn brin. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r asiantaeth berthnasol gyflwyno a chwblhau Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF). Bydd y swyddog dynodedig o'r awdurdod lleol yn trafod y cais â'r swyddog perthnasol a enwebir o Heddlu Dyfed-Powys, a phenderfynir a ydyw amgylchiadau'r farwolaeth yn golygu bod angen cychwyn y broses ai peidio.

Mae'n bosibl y bydd yr amgylchiadau sy'n ymwneud â rhai marwolaethau lle bydd angen cynnal cyfarfod ymateb cyflym y tu allan i'r prosesau arferol a fyddai'n sbarduno'r broses yn awtomatig. Gallai hyn fod, er enghraifft, yn unigolyn sydd wedi marw yn yr ysbyty sawl diwrnod ar ôl cael ei dderbyn yno. Yn y sefyllfaoedd hyn, byddai'r swyddog heddlu sy'n ymwneud â'r achos yn cael ei gyfyngu i ymateb i'r digwyddiad uniongyrchol, ac efallai na fyddai mewn sefyllfa i gychwyn y broses sawl diwrnod yn ddiweddarach ar ôl i'w ran yn y broses ddod i ben. Gallai hyn hefyd fod mewn sefyllfaoedd pan fo rhywun yn marw dros y ffin, neu y tu allan i'w ardal breswyl arferol, lle gallai'r ymatebwyr cyntaf ac asiantaethau fod o'r tu allan i ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen i brotocolau lleol fod ar waith ar lefel yr asiantaeth leol i hybu ymwybyddiaeth o'r model ymateb cyflym ar unwaith er mwyn sicrhau bod y broses yn cael ei dechrau pan fo angen.

Os bydd angen cyfarfod ymateb cyflym, yr unigolyn dynodedig o'r awdurdod lleol perthnasol a fydd yn cadeirio'r cyfarfod. Mewn achosion pan fydd angen cyfranogiad mwy arbenigol, gellir nodi cadeirydd arall addas os ystyrir ei fod yn briodol.

Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu proses yn lleol i gael, asesu ac ymateb i unrhyw adroddiadau a cheisiadau am ymateb cyflym ar unwaith.

### *Amserlenni*

Er bod y term ‘cyflym’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r ymateb i achosion o hunanladdiad tybiedig a gwmpesir gan y broses gytunedig hon, yn y mwyafrif o’r sefyllfaoedd bydd yr amserlenni go iawn yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau’r achos a’r rheiny yr ystyrir eu bod dan effaith hyn. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o’r achosion, dylid galw cyfarfod cyn pen 48 awr neu ddau ddiwrnod gwaith i’r penderfyniad er mwyn cychwyn y broses. Dylid rhannu unrhyw wybodaeth berthnasol â’r bobl hynny sy’n bresennol yn y cyfarfod cyn ei gynnal, lle bo modd, er mwyn gallu casglu ac ystyried gwybodaeth briodol.

## 4. Y BROSES AR GYFER YMATEB YN GYFLYM I DDIGWYDDIADAU O HUNANLADDIAD TYBIEDIG

### *Hysbysiad o ddigwyddiadau a chadarnhau’r ffeithiau*

Bydd yr asiantaeth sy’n ymateb yn gyntaf i’r digwyddiad (sef Heddlu Dyfed-Powys yn y mwyafrif o’r achosion) yn cynnal asesiad cychwynnol o amgylchiadau’r digwyddiad. Os ystyrir bod yr amgylchiadau’n bodloni’r meini prawf ar gyfer cyfarfod ymateb cyflym, cynhelir trafodaethau â’r unigolyn dynodedig yn yr awdurdod lleol perthnasol. Bydd yr unigolyn hwn wedyn yn trefnu ac yn cynnal y cyfarfod gan sicrhau bod cadeirydd a gweinyddiaeth briodol yn cael eu darparu.

Yn y mwyafrif o’r awdurdodau lleol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y gwasanaeth diogelu perthnasol sy’n gyfrifol am y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith. Fodd bynnag, mae strwythurau, lleoliad a darpariaeth gwasanaethau yn amrywio ar draws y rhanbarth. Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol perthnasol yw penderfynu pa wasanaeth sydd fwyaf addas i ymdrin â chyfrifoldebau’r cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith.

### *Casglu gwybodaeth*

Mewn rhai achosion, efallai na fydd yn glir ar unwaith beth yw’r risgiau i unigolion na beth yw’r effaith ehangach ar y gymuned. O dan yr amgylchiadau hyn, gall y swyddog heddlu dynodedig, wrth ymgynghori â swyddog dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol, gasglu gwybodaeth o gofnodion presennol a chynnal ymholiadau pellach gydag asiantaethau perthnasol cyn penderfynu a oes angen trefnu cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith. Mewn achosion sy’n ymwneud â phlant, pan fo hunanladdiad yn cael ei ystyried fel achos posibl o farwolaeth, yr hyn a ddylai fod yn sefyllfa ddiofyn yw cynnal cyfarfod, oni bai bod amgylchiadau eithriadol neu reswm clir dros beidio â chynnal cyfarfod.

### *Cynnal cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith*

Yr awdurdod lleol perthnasol a fydd yn gyfrifol am drefnu a chynnal y cyfarfod ymateb cyflym.

Bydd yr holl asiantaethau partner perthnasol yn cael eu gwahodd drwy neges e-bost. Ni ddylai gormod o bobl fod yn rhan o’r cyfarfod, a dim ond y bobl hynny sy’n gallu rhoi gwybodaeth berthnasol a chytuno ar gamau gweithredu a ddylai fod yn bresennol, a allai olygu darparu adnoddau, ar ran eu hasiantaeth.

Dylid trafod unrhyw ddogfennau briffio yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ymarferwyr / staff cyn y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith, a chytuno arnynt gyda’r cadeirydd.

***Y cyfryngau***

Bydd unrhyw sesiynau briffio y mae eu hangen gyda'r cyfryngau cyn y cyfarfod ymateb cyflym yn cael eu rheoli ar lefel awdurdod lleol / asiantaeth leol yn unol â pholisïau cyfathrebu lleol. Bydd angen i Heddlu Dyfed-Powys a'r awdurdod lleol, ar lefel yr uwch-arolygydd a'r pennaeth gwasanaeth, drafod yr wybodaeth a chytuno arni. Dylid trafod, a dod i benderfyniad am ba asiantaeth a ddylai arwain mewn perthynas â hyn.

Mewn sefyllfaoedd sy'n debygol o ddenu llawer o sylw yn y cyfryngau, bydd cadeirydd y bwrdd diogelu perthnasol ac uned fusnes y bwrdd diogelu rhanbarthol yn cael eu hysbysu, a bydd unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau a ryddheir yn cael eu rhannu.

***Cyn y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith***

Dylai asiantaethau a sefydliadau unigol a wahoddir i'r cyfarfod nodi'r bobl hynny sydd fwyaf agos at yr unigolyn / unigolion. Gall y rhain gynnwys, er enghraifft, teulu, ffrindiau, cyfoedion, cydweithwyr, aelodau clwb, timau, staff, ac ati.

Dylai asiantaethau a sefydliadau unigol hefyd nodi unrhyw unigolion eraill a allai gael eu sbarduno gan y digwyddiad hwn ac a allai, o bosibl, fod â lefel uwch o ran risg.

O ran yr unigolion hynny nad ydynt yn hysbys i wasanaethau, mae angen ystyried darparu cymorth i'r gymuned ehangach, yn enwedig ar gyfer y grwpiau hynny y tynnwyd sylw atynt fel rhai sy'n wynebu risg uwch.

***Y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith***

Bydd cadeirydd y cyfarfod ymateb cyflym yn amlinellu diben a chynnwys y cyfarfod (datganiad wedi'i gynnwys yn yr agenda yn atodiad 1).

Gofynnir i'r swyddog heddlu sy'n bresennol, neu asiantaeth berthnasol arall, ddarparu trosolwg byr o'r digwyddiad a, phan fo'n bosibl, darparu rhestr o'r unigolion hynny a allai fod o dan effaith hyn. **Fel yr amlinellwyd yn adran 2, mae'n bwysig bod y cyfarfod yn cadw at ei brif orchwyl, ac nad yw'n ymchwilio i drafodaethau ehangach y tu hwn i'w brif ddiben.** Mae hefyd yn bwysig nad yw manylion gofidus sy'n ymwneud ag amgylchiadau'r farwolaeth yn cael eu rhannu yn y cyfarfod yn ddiangen. Dylid ystyried lles yr ymarferwyr sy'n cymryd rhan ac mae angen i'r cadeirydd ystyried unrhyw drawma eilaidd a allai ddigwydd o ganlyniad i rannu gwybodaeth ofidus, a'i gadw i'r lleiafswm.

Bydd pob asiantaeth yn rhannu unrhyw wybodaeth sydd ganddi am bob un o'r unigolion neu'r grwpiau a nodwyd a, phan fo angen, yn darparu gwybodaeth am unrhyw unigolion neu grwpiau eraill a allai fod o dan effaith hyn. Dylid cyflwyno gwybodaeth na ellir ei chael ar adeg y cyfarfod i'r cadeirydd o fewn dau ddiwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod.

Dylid nodi a thrafod y risgiau ar gyfer pob unigolyn, a bydd y camau gweithredu i liniaru unrhyw risgiau a/neu effaith yn cael eu cytuno a'u neilltuo i'r asiantaethau perthnasol.

Mae angen trosglwyddo'n ffurfiol ofal unigolion sydd eisoes yn destun cynlluniau gofal a chymorth, cynlluniau amddiffyn plant, cynlluniau amddiffyn oedolion, neu sydd o fewn y system gofal, i'w gweithiwr allweddol er mwyn sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu.

Pan fo'n briodol, bydd y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith yn penderfynu pa sefydliad / asiantaeth (gan gynnwys y trydydd sector) sydd yn y sefyllfa orau i gynorthwyo'r teulu / cyfoedion / cymuned.

Dylai pob asiantaeth / sefydliad ystyried sut y gallant gyfrannu at ddiwallu unrhyw angen a nodwyd, naill ai eu hunain neu drwy alluogi asiantaethau eraill i wneud hynny. Bydd angen iddynt hefyd ystyried unrhyw adnoddau ychwanegol y mae eu hangen i ategu proses y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal wrth ddarparu cymorth mewn ymateb i angen lleol a nodwyd yn dilyn digwyddiad.

Gall asiantaethau gytuno ar ddyddiad ac amser ar gyfer cyfarfod dilynol yn y cyfarfod ymateb cyflym os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Bydd asiantaethau sy'n bwrw ymlaen â chamau gweithredu o'r cyfarfod ymateb cyflym yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau, a bod diweddariadau'n cael eu darparu heb oedi o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

***Rhannu gwybodaeth â rhieni / gofalwyr***

Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen briffio rhieni / gofalwyr am y sefyllfa, a darparu cymorth i'w plentyn / plant neu'r unigolyn / unigolion y maent yn gofalu amdanynt. Y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith a fydd yn cytuno ar y penderfyniad ynghylch rhannu gwybodaeth â rhieni / gofalwyr a chynnwys y ddogfen friffio.

Bydd rhieni / gofalwyr yn cael gwybodaeth ffeithiol fel y cytunwyd gan y cyfarfod ymateb cyflym, ynghyd â dogfen yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael.

Bydd gwybodaeth gyswllt yn cael ei chynnwys os ydynt am siarad â rhywun eu hunain, neu i gael cymorth ar gyfer eu plentyn / plant neu'r unigolyn / unigolion y maent yn gofalu amdanynt.

***Materion trawsffiniol***

Mewn sefyllfaoedd pan fo plentyn neu oedolyn wedi marw mewn ardal y tu allan i'r ardal y maent yn byw ynddi fel arfer, bydd yr egwyddor o breswylfa arferol yn berthnasol. Mae hyn yn golygu'r man lle mae'r plentyn neu'r oedolyn fel arfer yn byw, ac yn cael ei ystyried yn brif gyfeiriad neu gyfeiriad parhaol. O dan yr amgylchiadau hyn, yr awdurdod lleol perthnasol a Heddlu Dyfed-Powys a fydd yn gyfrifol am gynnal y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith. Mae'n debygol y bydd unrhyw wasanaethau y mae cyfoedion, aelodau o'r teulu neu aelodau o'r gymuned yn debygol o fod eu hangen yn gysylltiedig â phrif breswylfa'r unigolyn yn hytrach na'r man lle bu farw. Bydd bob amser sefyllfaoedd y gellir eu disgrifio fel *sefyllfaoedd ansicr*, er enghraifft plant sy'n derbyn gofal, lle gellid dadlau bod y ddau gartref yn cael eu hystyried fel prif breswylfa'r unigolyn. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid cynnal trafodaeth rhwng rheolwyr perthnasol y ddau awdurdod lleol a gwneud penderfyniad ar sail synnwyr cyffredin yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dylid ystyried yr egwyddor o ymateb prydlon, sy'n debyg i'r arferion y dylid eu dilyn yn achos *sefyllfaoedd ansicr*, a dylid osgoi unrhyw oedi diangen oherwydd anghytundebau proffesiynol ar bob cyfrif.

***Llesiant staff***

Ni ddylid diystyru'r effaith y gall achosion o hunanladdiad tybiedig ei chael ar ymarferwyr ac aelodau staff. Gall hyn (ond nid hyn yn unig) fod o ganlyniad i brofiadau personol, profiadau proffesiynol, a/neu fanylion a gwybodaeth drallodus ynghylch y farwolaeth. Gallai hyn gynnwys

staff a oedd yn ymwneud â'r unigolyn a fu farw, sydd â chysylltiadau â'i ffrindiau, ei deulu, a phobl sy'n adnabod yr unigolyn a fu farw, a/neu unrhyw ymarferwyr neu aelodau o staff sy'n ymwneud â'r cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith. Dylai cadeirydd y cyfarfod sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo yn ystod y cyfarfod i roi ystyriaeth briodol i'r unigolion hyn ac unrhyw anghenion cymorth uniongyrchol neu barhaus a allai fod ganddynt. Dylai rheolwyr llinell staff ac ymarferwyr, fel y nodir uchod, sicrhau bod mesurau digonol yn cael eu rhoi ar waith, pan fo angen, i roi cymorth drwy sesiynau dadfriffio ac atgyfeiriadau i wasanaethau cwnsela staff a thimau iechyd galwedigaethol. Cyfrifoldeb asiantaethau a sefydliadau unigol yw adrodd unrhyw wybodaeth yn ôl i'w staff.

Cydnabyddir y gall yr amgylchiadau ynghylch marwolaethau plant ac oedolion sydd wedi sbarduno'r cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith fod yn hynod annifyr a thrallodus, ac at ddiben y cyfarfod hwn, nid oes angen rhannu cynnwys sensitif a manylion ynghylch amgylchiadau'r farwolaeth. Felly, rhaid i gadeirydd y cyfarfod sicrhau mai dim ond gwybodaeth a ystyrir yn gwbl angenrheidiol a fydd yn cael ei thrafod yn ystod y cyfarfod er mwyn diogelu llesiant y cyfranogwyr.

## 5. RHEOLI DIGWYDDIADAU AR RADDFA FAWR

Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Nodi clwstwr o ddigwyddiadau, a all gynnwys achosion o ymgais i gyflawni hunanladdiad, yn ogystal â hunanladdiad tybiedig.
- Nodi, yn seiliedig ar nifer, amserlen ac agosrwydd (yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol) y digwyddiadau lleol.

Bydd angen ystyried digwyddiadau mewn ardaloedd cyfagos a'r posibilrwydd y gallai achos lleol fod yn rhan o glwstwr o achosion mewn ardal gyfagos, neu i'r gwrthwyneb.

Ar ôl nodi clwstwr o ddigwyddiadau:

- Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i'r cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith ymgynnull yn aml **(i'w benderfynu)** er mwyn monitro'r sefyllfa a sicrhau bod gwasanaethau / gweithgareddau cymorth ac atal priodol ar waith.
- Bydd y gwaith yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar ddarparu cymorth i'r bobl hynny y nodir eu bod mewn perygl, a'r gymuned ehangach yn gyffredinol.
- Byddai clwstwr o ddigwyddiadau'n sbarduno ymateb rhyngasiantaethol uwch a fyddai'n gofyn i staff lefel strategol gyfarfod yn rheolaidd, yn ogystal â'r cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith.
- Bydd y grŵp llywio rhanbarthol, yn debyg i'w gylch gorchwyl, yn ystyried unrhyw themâu a nodwyd fel rhan o'r clwstwr neu ddigwyddiad ar raddfa fawr.
- Dylid briffio'r cyfarwyddwyr statudol, cadeirydd y bwrdd diogelu rhanbarthol perthnasol ac uned fusnes y bwrdd diogelu rhanbarthol cyn gynted â phosibl ar ôl nodi nifer fawr o ddigwyddiadau neu glwstwr o ddigwyddiadau.

## 6. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Mae hon yn broses amlasiantaeth ranbarthol y cytunwyd arni fel rhan o drefniadau llywodraethu Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru er mwyn cefnogi arferion diogelu amlasiantaethol effeithiol a chadarn.

Mae protocol rhannu gwybodaeth rhanbarthol ar waith er mwyn cynorthwyo trefniadau rhannu gwybodaeth cadarn a chyfreithlon rhwng asiantaethau.

Os bydd gwahaniaethau proffesiynol sylweddol yn codi nad oes modd eu datrys yn anffurfiol, mae protocol amlasiantaeth ar gyfer datrys gwahaniaethau proffesiynol ar gael er mwyn cynorthwyo asiantaethau.

Bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn gyfrifol am storio a rheoli'r cofnodion yn unol â'u polisïau diogelu a rheoli data lleol. Mae'n bosibl y bydd angen darparu gwybodaeth am themâu / tueddiadau perthnasol ac ati, o bryd i'w gilydd, i'r bwrdd diogelu rhanbarthol at ddibenion archwilio, ac i gynorthwyo arferion amlasiantaethol gorau fel rhan o fframwaith perfformiad a sicrhau ansawdd y bwrdd.

Bydd y grŵp llywio ymateb cyflym rhanbarthol yn gyfrifol am oruchwylio a monitro model y cyfarfod ymateb cyflym ar unwaith. Bydd unrhyw themâu perthnasol, neu unrhyw faterion, yn cael eu nodi a'u hadrodd yn y grŵp hwn fel y gall y bwrdd diogelu rhanbarthol eu hystyried.

### ATODIAD 1: Datganiad cyfrinachedd ac agenda

## AGENDA CYFARFOD YMATEB CYFLYM

**Dyddiad ac amser**
**Microsoft Teams**

1. **Croeso a chyflwyniadau**
2. **Amlinelliad o ddiben y cyfarfod:**

*Diben y cyfarfod hwn yw ystyried digwyddiad o hunanladdiad tybiedig, a rheoli unrhyw fygythiad, risg neu niwed i unigolion a/neu'r gymuned ehangach.*

*Nod y cyfarfod fydd trin pob unigolyn sy'n cael ei drafod yn deg, gyda pharch a heb wahaniaethu amhriodol. Mae angen i bawb sy'n bresennol rannu'r holl fanylion sydd ganddynt mewn perthynas â'r unigolion a drafodir er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu nodi lefelau risg a chytuno ar gymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion.*

*Yn ystod y cyfarfod, efallai y byddwch yn clywed gwybodaeth a allai fod yn anodd neu a allai beri gofid i rai pobl. Bydd eich asiantaeth yn cynnig cymorth ac yn cynnal ôl-drafodaeth berthnasol fel trefn arferol.*

*Bydd y cyfarfod yn gwneud argymhellion i asiantaethau eu cwblhau.*

*Mae pawb sy'n bresennol yn y cyfarfod hwn yn cytuno, trwy eu presenoldeb, i gydymffurfio â'r datganiad cyfrinachedd canlynol. Dylai pob asiantaeth sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw mewn modd cyfrinachol ac wedi'u cyfyngu'n briodol.*

*Mae’r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod hwn yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rannu â neb arall heb ganiatâd y cadeirydd, ac mae hyn yn cynnwys y cofnodion. Gall y cofnodion fod yn destun ceisiadau ar gyfer datgelu o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.*

3. **Unrhyw ddatganiadau o fuddiant / cysylltiadau personol â’r unigolyn**

4. **Trosolwg o’r achos**

5. **Rhannu gwybodaeth ag asiantaeth / sefydliad perthnasol**

6. **Nodi pobl y gwyddys neu y tybir eu bod dan effaith y digwyddiad a’r risgiau cysylltiedig**

7. **Cytuno ar gamau gweithredu ac amserlenni ar gyfer cynorthwyo unigolion a nodwyd yr effeithir arnynt**

8. **Nodi unrhyw sefydliadau cymunedol neu grŵp a allai fod dan effaith hyn (h.y. gweithleoedd, grwpiau hamdden cysylltiedig)**

9. **Cytuno ar gamau gweithredu ac amserlenni ar gyfer cynnig cymorth i grwpiau a nodwyd ac ati**

10. **Ystyried unrhyw gysylltiadau â digwyddiadau diweddar eraill, i nodi unrhyw ddatblygiad clwstwr posibl ac unrhyw gamau gweithredu y mae eu hangen**

11. **Unrhyw faterion lles staff a nodwyd, a chamau gweithredu y mae eu hangen i gynorthwyo staff**

12. **Ystyried unrhyw gysylltiadau â phrosesau eraill (e.e. amddiffyn plant, amddiffyn oedolion, adolygiad diogelu unedig sengl (ADUS) / fforwm proffesiynol amlasiantaethol / adolygiad dynladdiad domestig ac ati)**

13. **Ystyried angenrheidrwydd / priodoldeb unrhyw ddatganiadau i’r cyfryngau a’r asiantaeth arweiniol**

14. **A oes unrhyw themâu adnabyddadwy?**

15. **Crynodeb o’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt**

16. **A oes angen cyfarfod adolygu? Os oes, nodi amser a dyddiad y cyfarfod**

17. **Unrhyw fater arall**

**ATODIAD 2: Datganiad cyfrinachedd ac agenda**

# ADOLYGU AGENDA'R CYFARFOD YMATEB CYFLYM

**Dyddiad ac amser**

**Microsoft Teams**

1. **Croeso a chyflwyniadau**

**2. Amlinelliad o ddiben y cyfarfod:**

*Diben y cyfarfod hwn yw ystyried digwyddiad o hunanladdiad tybiedig, a rheoli unrhyw fygythiad, risg neu niwed i unigolion a/neu'r gymuned ehangach.*

*Nod y cyfarfod fydd trin pob unigolyn sy'n cael ei drafod yn deg, gyda pharch a heb wahaniaethu amhriodol. Mae angen i bawb sy'n bresennol rannu'r holl fanylion sydd ganddynt mewn perthynas â'r unigolion a drafodir er mwyn sicrhau ein bod ni'n gallu nodi lefelau risg a chytuno ar gymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion.*

*Yn ystod y cyfarfod, efallai y byddwch yn clywed gwybodaeth a allai fod yn anodd neu a allai beri gofid i rai pobl. Bydd eich asiantaeth yn cynnig cymorth ac yn cynnal ôl-drafodaeth berthnasol fel trefn arferol.*

*Bydd y cyfarfod yn gwneud argymhellion i asiantaethau eu cwblhau.*

*Mae pawb sy'n bresennol yn y cyfarfod hwn yn cytuno, trwy eu presenoldeb, i gydymffurfio â'r datganiad cyfrinachedd canlynol. Dylai pob asiantaeth sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cadw mewn modd cyfrinachol ac wedi'u cyfyngu'n briodol.*

*Mae'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod hwn yn gyfrinachol ac ni ddylid ei rannu â neb arall heb ganiatâd y cadeirydd, ac mae hyn yn cynnwys y cofnodion. Gall y cofnodion fod yn destun ceisiadau ar gyfer datgelu o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.*

**3. Trosolwg o achos diwygiedig**

**4. Adolygu cofnodion y cyfarfod blaenorol ac unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol**

**5. Adolygu camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a'r wybodaeth ddiweddaraf amdanynt**

**6. Diweddariadau pellach gan asiantaethau**

**7. Nodi risgiau pellach a chamau lliniaru (ar gyfer pob unigolyn neu grŵp)**

**8. Penderfynu ar unrhyw angen am gymorth a'r asiantaeth / sefydliad cyfrifol perthnasol**

**9. Adolygu ystyriaeth o unrhyw brosesau eraill (proses amddiffyn plant / oedolion, proses ADUS / fforwm proffesiynol amlasiantaethol / adolygiad dynladdiad domestig ac ati)**

**10. Cytuno ar unrhyw gamau pellach**

**11. Unrhyw fater arall**

**12. Cytuno ar gau'r broses**